

Cyfarfod y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB)

Cofnodion

11 Mehefin 2019 – Ystafell Gynadledda A, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol,
Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Yn bresennol:

Daniel Groves (DG)	Cadeirydd (Annibynnol)
Katie Dalton (KD)	Cymorth Cymru
Nigel Stannard (NS)	Cynrychiolydd Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl
Naomi Alleyne (NA)	CLILC
Michelle Church (MC)	Cadeirydd Grŵp Cyllid ac Ymchwil Strategol
Diana Binding (DB)	Y Gwasanaeth Prawf
Angela Lee (AL)	Cynrychiolydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol
Frances Beecher (FB)	Gweithgor Llywodraethu
Martin Whatty (MW)	Grŵp Llywio Rhwydweithiau Tai
Sarah Rhodes (SR)	Llywodraeth Cymru
Angharad Rogers (AR)	Llywodraeth Cymru
Paul Webb (PW)	Llywodraeth Cymru
Julie Llewellyn (JL)	Llywodraeth Cymru

Hefyd yn bresennol:

Julie James (JJ)	Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ar ddechrau'r cyfarfod
------------------	--

Ymddiheuriadau:

Harry McKeown (HMK)	Cynrychiolydd Cartrefi Cymunedol Cymru
Helen Northmore (HN)	Annibynnol
Josie Smith (JS)	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Emma Williams (EW)	Llywodraeth Cymru
Claire Marchant (CM)	Cynrychiolydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Andrea James (AJ)	Grŵp Llywio Rhwydweithiau Tai

Nodyn	Cam(au) Gweithredu
1. Croeso a Chyflwyniadau	
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.	
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol	
<ul style="list-style-type: none"> • Diolchodd y Gweinidog i aelodau'r Bwrdd am eu holl waith ar brosiect braenaru'r Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi ac am eu hymrwymiad iddo, ac am gyfrannu at benderfyniad y Gweinidog i greu'r Grant Cymorth Tai. • Mae'r Gweinidog am ddeall pa mor effeithiol y darperir y rhaglen ar lawr gwlad, a'r hyn y gellid ei wella ac ym mha ffordd. • Mae'r Gweinidog yn awyddus i weld cysylltiadau rhwng y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a rhoi cymorth i'r cynrychiolydd tai newydd sydd bellach yn aelod o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. • Mae'r Gweinidog yn edrych ymlaen at gael barn ac argymhellion y Bwrdd ar ddyfodol y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl a'i flaenoriaethau. 	
2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi	
<ul style="list-style-type: none"> • Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod ar 05/03/19 fel cofnod cywir. • Mae diweddariad ar y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol i'w weld ar ddiwedd y cofnodion. 	
3. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru	
Diweddariad ar y Grant Cymorth Tai	
<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynodd JP ddiweddariad ar y Grant Cymorth Tai. Yn y cyflwyniad, trafodwyd y gwaith ymgysylltu a wnaed hyd hynny, y negeseuon a gafwyd gan randdeiliaid yn dilyn y gwaith ymgysylltu a'r camau nesaf. 	
Camau Nesaf y Grant Cymorth Tai	
<ul style="list-style-type: none"> • Digwyddiad ymgysylltu ar 19 Mehefin – profi'r cynigion drafft. • Ymgynghori ar y Canllawiau drafft ar gyfer y Grant Cymorth Tai – hydref 2019. • Cwblhau'r Canllawiau ar gyfer y Grant Cymorth Tai erbyn mis Chwefror 2020. 	
4. Trafodaeth am Flaenoriaethau'r Bwrdd yn y Dyfodol	
<ul style="list-style-type: none"> • Cafwyd trafodaeth am ddyfodol y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl a'r ffaith bod angen i'r Bwrdd roi cyngor i'r Gweinidog. • Dywedodd SR fod angen i'r Bwrdd ddeall ei ddiben yn glir, ac na ddylai fod ganddo gyfrifoldeb llywodraethu am oruchwylio'r 	

<p>ffordd y darperir y Grant Cymorth Tai mwyach (fel roedd ganddo'n flaenorol gyda rhaglen Cefnogi Pobl).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae angen i'r Bwrdd fod yn fwy ymatebol i'r hyn sy'n digwydd ym mhob rhan o'r sector. • Er mwyn sefydlu Bwrdd Cynghori Gweinidogol hirdymor newydd, byddai angen inni ymgymryd â'r broses briodol ar gyfer penodiadau cyhoeddus. • Awgrymodd KD fod angen i'r Bwrdd ganolbwyntio ar bolisi a mabwysiadu dull gweithredu ar gyfer yr holl raglen Cymorth Tai. Gellid ei gyfuno â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddigartrefedd i greu un Bwrdd ond byddai ganddo grwpiau gorchwyl a gorffen o hyd i gyflawni tasgau ac iddynt derfynau amser. • Ychwanegodd KD fod angen i'r Bwrdd gydgysylltu'n well â meysydd polisi eraill, h.y. Iechyd a chamddefnyddio sylweddau. • Awgrymodd KD/MC y gellid llunio neges allweddol ar ôl pob cyfarfod i'w chyflwyno gerbron y Gweinidog. • Ychwanegodd AL y bydd angen cyswllt rhanbarthol o hyd fel rhan o unrhyw Fwrdd newydd. • Cytunwyd mai'r canlynol yw'r prif faterion y mae angen i'r Bwrdd eu hystyried ynghylch ei rôl yn y dyfodol: <ul style="list-style-type: none"> - Rhoi cyngor i'r Gweinidog - Sut mae'n ymwneud â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddigartrefedd a'r agenda digartrefedd ehangach? - Sut mae'n ymwneud â'r hyn sy'n digwydd yn lleol ar lawr gwlad? • Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog yn amlinellu'r prif bwyntiau a awgrymwyd yn y cyfarfod hwn. 	<p>DG i ysgrifennu at y Gweinidog gydag awgrymiadau am y cyfeiriad yn y dyfodol</p>
<p>5. Adborth Is-grŵp – Gweithgor Llywodraethu:</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Amlinellodd KD y drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod y Gweithgor Llywodraethu ar 10 Mai, a ganolbwyntiodd ar y gwaith a wnaed yn flaenorol gan y Gweithgor i gyd-lunio'r canllawiau Cefnogi Pobl presennol a pha wersi y gellir eu dysgu. Cytunwyd nad oedd angen cyfarfod arall o'r Gweithgor Llywodraethu er mwyn ystyried dogfen ganllaw'r Grant Cymorth Tai ond y byddai'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl yn ystyried y ddogfen ymgynghori ffurfiol yn ei gyfarfod nesaf ym mis Hydref. • Holodd AL am werthuso Adolygiadau Blynyddol y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol eleni yn sgil yr holl newidiadau sy'n digwydd ar hyn o bryd. Cytunwyd y dylai'r Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol anfon Adolygiadau Blynyddol y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol wedi'u cwblhau i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Gorffennaf. Yna cânt eu hasesu gan y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl ym mis Hydref. 	

<ul style="list-style-type: none"> Ni fydd is-grwpiau presennol y Bwrdd Cyngkori Cenedlaethol Cefnogi Bwrdd yn bodoli ar eu ffurf bresennol o dan unrhyw drefniadau newydd ar gyfer y Bwrdd. Mae'r is-grwpiau yn un o'r meysydd y bydd angen eu hadolygu. 	
6. Adborth Is-grŵp – y Grŵp Cyllid ac Ymchwil Strategol	
<ul style="list-style-type: none"> Roedd y Grŵp Cyngkori Cenedlaethol Cefnogi Pobl wedi gofyn i'r Grŵp Cyllid ac Ymchwil Strategol brofi ac ystyried yr opsiynau/cynigion a nodwyd yn y Fframwaith Canlyniadau Cydlynu Cyllid drafft. Cyflwynodd MC bapur sefyllfa gan y Grŵp a roddodd gyngor i'r Grŵp Cyngkori Cenedlaethol Cefnogi Pobl ar y Fframwaith Canlyniadau arfaethedig. Mae'r papur yn cynnwys safbwyntiau a barn aelodau'r Grŵp Cyllid ac Ymchwil Strategol yn ogystal â'u cynigion ar gyfer nifer o ddiwygiadau i'r Fframwaith. O dan y Nod Llesiant Cenedlaethol - Cymru sy'n fwy Cyfartal, mae'r papur yn awgrymu y dylai'r canlyniad ar gyfer grwpiau difreintiedig gynnwys pawb, h.y. <i>dylai gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl â nodweddion gwarchoddedig gwahanol ar gyfer y rhai sy'n byw mewn tlodi neu sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod</i>. Roedd rhai pobl am wneud rhai diwygiadau i'r adran hon. Gofynnodd NS sut y byddwn yn gwybod a yw teuluoedd yn cael cymorth gan y Grant Cymunedau a Phlant a'r Grant Cymorth Tai. Sut y caiff hyn ei gofnodi a'i gydlynu? Cytunwyd y dylid cyflwyno'r papur i Weithgor Data Llywodraeth i'w ystyried. 	<p>MC i ddiwygio'r papur i adlewyrchu'r sylwadau</p> <p>MC i'w gyflwyno i Weithgor Data Llywodraeth Cymru ar Gydlynu Cyllid</p>
7. Digwyddiadau Defnyddwyr Gwasanaethau Cymorth – Adborth	
<ul style="list-style-type: none"> Cyflwynodd KD y canfyddiadau o ddigwyddiadau defnyddwyr Gwasanaethau Cymorth, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2019, er mwyn gwrandao ar farn y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth sy'n ymwneud â digartrefedd a thai. Siaradodd Cymorth â thua 100 o bobl mewn digwyddiadau yng Nghaerfyrddin, y Rhyl a Chaerdydd. Cyhoeddir yr adroddiad llawn cyn bo hir. 	
8. Diweddariadau	
Digartrefedd	
<ul style="list-style-type: none"> Digartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc: Mae'r ceisiadau gan Awdurdodau Lleol a phartneriaid yn y trydydd sector o dan y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref gwerth £4,800,000 wedi cael eu prosesu bellach, a chaiff y prosiectau llwyddiannus eu cyhoeddi maes o law. Bydd y gronfa hefyd yn talu am werthusiad annibynnol o bob un o'r prosiectau sydd wedi'u cyllido drwy'r Grant Arloesi. Mae swyddogion wrthi'n gweithio gyda Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i dynnu hyn at ei gilydd. Mae'r cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu 	

ar gyfer Cymru Gyfan yn cael ei ddatblygu yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid, a disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn yr hydref.

- **Tai yn Gyntaf:** Cytunwyd ar gyllid ar gyfer pum prosiect braenaru Tai yn Gyntaf. Mae'r prosiectau ar gyfer Conwy/Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd ac Ynys Môn. Mae'r adborth cynnar o brosiect Caerdydd yn gadarnhaol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyllido rôl Cydgysylltydd Tai yn Gyntaf, o fewn Cymorth Cymru, a fydd yn helpu sefydliadau i ddatblygu cynigion Tai yn Gyntaf, nodi a rhannu arferion gorau, a chefnogi Rhwydwaith Tai yn Gyntaf.

Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl (SPIN)

- Yn ystod cyfarfod Cymru Cyfan y Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl yn sesiwn y bore ar 9 Ebrill, ystyriwyd hynt y broses o roi'r Grant Cymorth Tai ar waith, y Fframwaith Canlyniadau unigol arfaethedig a sefydlu Grŵp Data amlasiantaethol, a fydd yn ategu gwaith y fframwaith. Cafwyd cyflwyniad ar strategaethau awdurdodau lleol ar ddigartrefedd, y mae rhai ohonynt yn strategaethau rhanbarthol, a phwysigrwydd sicrhau bod y Grant Cymorth Tai yn cyfrannu at gynlluniau cyflawni lleol o ran digartrefedd.
- Arweiniodd PW drafodaeth bord gron ar gaffael, a fydd yn llywio'r canllawiau drafft ar y Grant Cymorth Tai sydd ar ddod. At hynny, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y prosiect yn ymchwilio i gyllido cynlluniau anabledau dysgu drwy'r Grant Cymorth Tai.
- Cafwyd cyflwyniad gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru ar brosiect Tyfu Tai Cymru a oedd yn ystyried cynaliadwyedd tenantiaethau yn y sector rhentu preifat, gan ganolbwyntio ar safonau llety a lefelau cynyddol o salwch meddwl. Mae'r Adroddiad cysylltiedig yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer pob parti a drafodwyd gan y grŵp, yn enwedig ym mha ffordd y gallai'r Grant Cymorth Tai weithio'n agosach â thenantiaid a landlordiaid.
- Bydd y cyfarfod nesaf ar 2 Gorffennaf yn gyfarfod ar y cyd â'r Rhwydwaith Digartrefedd a bydd yn trafod ailddosbarthu'r Fframwaith Canlyniadau.

Y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol

- Atodir diweddariad gan bob Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn Atodiad A.

Grŵp Ymchwil a Gwerthuso

- Nid yw'r grŵp wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl.

Cartrefi Cymunedol Cymru

- Mae gan Grwpiau Cyflawni Strategol Cartrefi Cymunedol Cymru adnoddau llawn ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion bellach. Maent wedi cyfarfod yn ddiweddar i

<p>gytuno ar restr o themâu trawsbynciol, y byddant yn gweithio arnynt er mwyn blaenoriaethu cynlluniau gweithredu a chytuno arnynt.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llwyddwyd i recriwtio dau Bennaeth Polisi a Materion Allanol. <p>Cymorth Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • Erbyn diwedd mis Mawrth 2019, roedd Cymorth wedi darparu hyfforddiant seicolegol wybodus i fwy na 1,750 o bobl o blith darparwyr cymorth, cymdeithasai tai ac awdurdodau lleol. Mae'r gwerthusiad annibynnol yn gadarnhaol iawn ac mae gwasanaethau cymorth sy'n ymwneud â digartrefedd a thai yn dechrau gweld effaith y newidiadau. • Mae Cymorth yng nghanol prosiect ymchwil ar y cyd â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i nodi effaith ddynol ac ariannol gwasanaethau cymorth sy'n ymwneud â digartrefedd a thai yng Nghymru. • Eleni, bydd Cymorth yn gwneud gwaith i ddatblygu cytundebau teirochrog ar gyfer cynlluniau llety â chymorth yng Nghymru, gan weithio gyda phartneriaid ym mhob rhan o'r sector. • Mae'n llunio canllaw ar gamdefnyddio sylweddau mewn llety â chymorth. • Mae gwaith Rhwydwaith Tai yn Gyntaf yng Nghymru yn datblygu'n dda a chynhelir cynhadledd Tai yn Gyntaf ar 11 Gorffennaf yng Nghaerdydd. <p>Y Gwasanaeth Prawf</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd Ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y Gwasanaeth Prawf yn hydref 2018 yn cynnwys cynlluniau i derfynu contractau presennol y Cwmni Adsefydlu Cenedlaethol ddwy flynedd yn gynt na'r disgwyl gyda'r bwriad o weithio gyda'r farchnad i lunio trefniadau newydd a gwell. • Ym mis Chwefror, daeth yn angenrheidiol penodi gweinyddwyr ar gyfer Working Links, perchennog Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru. Mae Seetec bellach yn gweithredu'r cwmni, o dan ei contract presennol ar gyfer Caint, Surrey a Sussex (KSS). • Mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru wedi cael ei ailenwi'n Wasanaeth Prawf Cymru. Gwnaed y penderfyniad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am reoli troseddwyr i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gynt, ar ddiwedd mis Tachwedd. Bydd KSS yn parhau i weithredu'r Rhaglen Gwneud lawn â'r Gymuned tan fis Mawrth 2021 pan gaiff y contractau eu dyfarnu eto. 	
<p>9. Unrhyw Fater Arall – Trafod Dyddiadau ar gyfer Cyfarfodydd yn y Dyfodol</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Trafodwyd y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd o'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl yn y dyfodol. Yn sgil 	

<p>datblygu'r Grant Cymorth Tai ac ymgynghori'n ffurfiol ar ddogfen ganllaw'r Grant Cymorth Tai yn hydref 2019, penderfynwyd y dylid cynnal y cyfarfod nesaf ym mis Hydref 2019.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylid cynnal y cyfarfod canlynol ym mis Chwefror 2020 ac erbyn hynny bydd y canllaw wedi cael ei gyhoeddi a dylid dechrau rhoi'r trefniadau newydd arfaethedig ar gyfer y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl ar waith. 	
<p>10. Cyfarfod Nesaf</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mercher 23 Hydref yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful. 	

Log Camau Gweithredu

Y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB)

Dyddiad y Nodwyd y Cam Gweithredu	Manylion y Cam Gweithredu	Person sy'n Gyfrifol	Statws
1. 5 Mawrth 2019	Ymgynghorir â'r Gweithgor Llywodraethu ar gynnwys arfaethedig Dogfen Ganllaw'r Grant Cymorth Tai. JL i drefnu cyfarfod ar gyfer y Grŵp Llywodraethu.	Julie Llewellyn	Wedi'i gwblhau
2. 5 Mawrth 2019	Y Grŵp Cyllid ac Ymchwil i ganolbwyntio ar y Fframwaith Canlyniadau Sengl. PW i gomisiynu gwaith ar gyfer y Grŵp Cyllid ac Ymchwil.	Paul Webb	Wedi'i gwblhau
3. 5 Mawrth 2019	Mae angen ehangu aelodaeth bresennol y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl er mwyn cynrychioli maes digartrefedd. Anfon cyngor at y Gweinidog ar y newidiadau.	Julie Llewellyn	Wedi'i gwblhau
4. 5 Mawrth 2019	Ymchwil/adolygiad ynghylch gwasanaethau Anableddau Dysgu. Anfon y fanyleb at aelodau'r grŵp.	Julie Llewellyn	Wedi'i gwblhau
5. 5 Mawrth 2019	Ymchwilio/adolygu ynghylch Dosbarthu. Anfon y fanyleb at aelodau'r grŵp.	Julie Llewellyn	Wedi'i gwblhau

Atodiad A

Diweddariad gan y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, Mehefin 2019

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Caerdydd

- Mae'r Grŵp Gweithredu Rhanbarthol Cefnogi Pobl bellach yn gweithredu fel is-grŵp newydd o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Mae'r grŵp hwn yn trafod y potensial i weithio'n rhanbarthol a threfnwyd prosiect/cynllun peilot rhanbarthol byrdymor yn llwyddiannus gan ddefnyddio syniadau o gynigion prosiect 'Oddi ar y Silff'.
- Ni chredir bod proses **Llwybrau Carcharorion** yn gweithredu cystal ag y gallai, felly mae'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn gweithio gyda'r Cydgysylltydd Rhwydweithiau Tai a phartïon â diddordeb er mwyn egluro'r sefyllfa a chynnig argymhellion ar gyfer gwella.
- Mae'r gwasanaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol am y cynnydd a wneir wrth ddarparu adnoddau ar gyfer dynion sy'n dioddef Cam-drin Domestig. Bydd y gwasanaeth yn cyflwyno ei gynllun Comisiynu newydd i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol cyn bo hir.
- Mae'r Fforwm Darparwyr Rhanbarthol wedi ymgynghori â Defnyddwyr Gwasanaeth ar y dulliau ymgysylltu a ffefrir ganddynt. Mae'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried unrhyw argymhellion.

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

- Mae'r broses o drefnu'r hosteli a ddarperir ar sail ranbarthol yn datblygu'n dda ac mae gwaith wedi dechrau ar gam 2 – comisiynu model isranbarthol newydd ar gyfer Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, y rhagwelir y caiff ei gyflawni erbyn mis Ebrill 2020.
- Mae cynllun isranbarthol cysylltiedig â thai wedi cael ei gomisiynu ar gyfer pobl â dementia yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.
- Mae'r broses o gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr yn y rhanbarth wedi bod yn ddiraffferth. Sefydlwyd Grŵp Swyddogion Monitro Cefnogi Pobl Cwm Taf Morgannwg er mwyn ystyried arferion gorau, gan gysoni gwaith monitro lle y bo'n briodol.
- Sefydlwyd gweithgor hefyd er mwyn rhannu arferion gorau a chefnogi cynnydd cynlluniau Tai yn Gyntaf yn y tri awdurdod lleol.

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent

- Diwrnod datblygu i'w drefnu er mwyn ystyried sut y mae Cefnogi Pobl yn cysylltu â'r agenda strategol/cynlluniau gweithredu ledled Gwent a chamau gweithredu i'w datblygu fel rhan o'r broses cynllunio strategol ranbarthol.
- Yn ddiweddar, comisiynodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan waith i ystyried anghenion cymorth tai oedolion â phroblemau iechyd meddwl; ystyriwyd adroddiad terfynol a chafodd ei groesawu gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.
- Mae gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol gysylltiadau da â'r amrywiaeth eang o bartneriaethau strategol perthnasol. Mae'r datblygiadau diweddar yn cynnwys ffurfioli aelodaeth is-grwpiau'r bwrdd cynllunio ardal, gan gynnwys y grŵp cyflawni strategol a'r grŵp Isafbris Uned Alcohol.

- Ymestyn prosiect yng Nghaerffili i gwmpasu Torfaen fel cynllun peilot yn cyflawni gwasanaeth cymorth tai i bobl sy'n cysgu allan.

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol y Canolbarth a'r Gorllewin

- Bydd Cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn ystyried y ffordd y mae awdurdodau lleol gwahanol yn y rhanbarth yn rhoi'r Grant Cymorth Tai ar waith.
- Adolygodd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fframwaith ymgysylltu â 'Defnyddwyr Gwasanaeth' y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Mae'r datblygiadau allweddol yn cynnwys:
 - Gweithdy Rhanbarthol
 - Creu is-grŵp a fydd yn canolbwyntio ar y fframwaith ymgysylltu â 'defnyddwyr gwasanaeth'; prif amcan y grŵp yw llunio (a monitro) cynllun gwaith sy'n adlewyrchu'r Canllaw (2018) a chynllun strategol y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.
- Atgyfnerthu'r cysylltiadau â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a Byrddau Cynllunio Ardal. Mae'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol bellach yn ystyried cysoni ein hagenda â byrddau rhanbarthol eraill, gan sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei drafod yn cyd-fynd â gweithgareddau a blaenoriaethau ehangach yn y rhanbarth (ac fel arall), e.e. Gofalwyr, ac yn eu cefnogi.

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru:

Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ym mis Mawrth 2019:

- Holiadur Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth Ar-lein Gogledd Cymru – Cyflwynwyd dadansoddiad o'r ymatebion a ddaeth i law hyd hynny i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, a gytunodd i rannu hyn yn ehangach. Mae hon yn ddogfen bwerus sy'n dangos gwerth y rhaglen Cefnogi Pobl. Mae'r Holiadur yn parhau i fod ar-lein ac mae ymatebion yn dod i law yn gyson drwy'r amser.
- Ailddosbarthu – mae'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol wedi llunio llythyr yn amlinellu pryderon i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â nhw. Darparodd Llywodraeth Cymru ymateb a nododd y bydd y llythyr hwn yn rhan o'r dystiolaeth a gyflwynir gerbron y Gweinidog.
- Aelodaeth – Mae pob awdurdod lleol bellach wedi gwahodd ei Arweinydd Digartrefedd i ymuno â'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.
- Penodwyd pob Swyddog Adsefydlu Carcharorion bellach.
- Gwasanaeth Cyngor Annibynnol ar Drais Domestig Rhanbarthol – yn amodol ar gael ei gymeradwyo gan yr unig Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl sy'n weddill, gall hyn fynd rhagddo.

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 24 Ebrill 2019.

- Gadawodd Pen-y-bont ar Ogwr y rhanbarth yn 'swyddogol' ar 1 Ebrill 2019.
- Newidiwyd enw'r rhanbarth yn swyddogol o Fae'r Gorllewin i Orllewin Morgannwg.
- Diweddariad ar yr aelodaeth:
 - Mae gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Is-gadeirydd newydd

- Mae cynrychiolwyr o wasanaethau digartrefedd a thai Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot bellach yn aelodau Cyfetholedig o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol
- Mae aelod ymroddedig o'r Bwrdd Iechyd bellach yn rhan o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.
- Mae cysylltiadau cryf yn cael eu creu â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn enwedig ers i gynrychiolydd y Bwrdd Iechyd ymuno â'r pwyllgor.
- Cynhaliwyd Diwrnod Datblygu'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar 14 Mai i adolygu meysydd blaenoriaeth presennol y rhanbarth.
- Mae adolygiad rhanbarthol o bob gwasanaeth Cam-drin Domestig (gan gynnwys rhai ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd) wrthi'n cael ei gynnal.